Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) – Adran 74 Esemptiadau

## Canllawiau sy'n ymwneud â Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2026

Ebrill 2026



# Cynnwys


Cyflwyniad .... 3

Esemptiadau Trwyddedau Morol .... 3

Amodau Cyffredin ar gyfer Esemptiadau .... 6

Caniatadau eraill .... 7

Canllawiau Arferion Da .... 8

Adolygiad o Weithgareddau Esempt .... 8

Esboniad o dermau penodol a ddefnyddir yn y canllawiau a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011 (fel y'i diwygiwyd) .... 9


Llun ar y clawr: Gwesty'r Harbourmaster, Aberaeron, Ceredigion


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54138, ISBN digidol 978-1-83745-142-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cyflwyniad

Sefydlodd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("y Ddeddf") y broses drwyddedu morol ac mae'n diffinio Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol ar gyfer dyfroedd Cymru (rhanbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr). Mae trwyddedu morol yn galluogi datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru, gan sicrhau nad yw gweithgareddau a reoleiddir yn effeithio ar yr amgylchedd, iechyd pobl nac yn ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon eraill o'r môr.

Mae adran 66 o'r Ddeddf yn nodi'r mathau o weithgareddau y mae angen trwydded forol ar eu cyfer. Yn gyffredinol, bydd angen trwydded forol ar gyfer y mathau canlynol o weithgareddau:

- Pob math o garthu.
- Gweithgareddau adeiladu.
- Dyddodion gan ddefnyddio cerbyd neu long o sylweddau neu wrthrychau yn y môr, neu ar wely'r môr neu oddi tano.
- Tynnu gwrthrychau o wely'r môr gan ddefnyddio cerbyd neu gwch.

Mae adran 74 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n nodi'r gweithgareddau nad oes angen trwydded forol arnynt, neu nad oes angen trwydded forol arnynt os bodlonir amodau penodol. Gelwir y rhain yn weithgareddau esempt. Mae Rhan 4, Pennod 2 o'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer esemptiadau penodol ac achosion arbennig lle nad oes, o bosibl, angen trwydded forol. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i esemptiadau a bennir gan orchymyn a wnaed o dan adran 74 o'r Ddeddf yn unig.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gwneud y gwaith gweinyddol ar gyfer trwyddedu morol ar ran Gweinidogion Cymru. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr angen am drwydded forol at:
marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk

## Esemptiadau Trwyddedau Morol

Mae esemptiadau yn ei gwneud yn bosibl i weithgareddau o ddydd i ddydd a risg isel gael eu cyflawni heb fod angen gwneud cais am Drwydded Forol. Gall esemptiadau leihau'r baich rheoleiddio ar weithgareddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau rheoleiddiol eraill, megis pysgota, ac maent yn caniatáu i waith gael ei wneud i ymateb i argyfwng, gan sicrhau diogelwch bywyd, eiddo a llongau.

Mae'r esemptiadau trwyddedau morol a bennir gan orchymyn wedi'u nodi yng Ngorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011, a ddiwygiwyd gan Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2026.

Os ydych yn bwriadu dibynnu ar esemptiad rhag yr angen am Drwydded Forol, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y gweithgaredd rydych chi'n ei gynllunio yn bodloni'r esemptiad ac unrhyw amodau a osodir yn llawn. Mae'n bosibl y gallai esemptiad fod yn berthnasol yn gyfan gwbl neu'n rhannol i'ch gweithgaredd arfaethedig. Pan na ellir bodloni amodau llawn yr esemptiad mae angen Trwydded Forol.

Efallai y bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd yn eich erbyn os penderfynir yn ddiweddarach nad yw'r gweithgaredd, neu'r amgylchiadau lle cafodd ei gyflawni, yn cyd-fynd â thelerau'r esemptiad perthnasol. Os cymerir camau gorfodi i ganfod a fu achos o dorri'r esemptiad, efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o unrhyw drafodaethau gyda'r corff cadwraeth natur statudol perthnasol, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn dibynnu ar yr esemptiad perthnasol.

O dan y Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer trwyddedu morol. Mae'r gwaith gorfodi yn cael ei wneud gan Swyddogion Gorfodi Morol (MEOs) Llywodraeth Cymru.

## Gweithgareddau Esempt

Mae'r gweithgareddau esempt wedi'u grwpio isod i themâu cysylltiedig at ddibenion y canllawiau hyn. Rhaid i chi gyfeirio at Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2026 i gael manylion penodol pob esemptiad ac unrhyw amodau angenrheidiol.

### Carthu

- Carthu ar gyfer Awdurdodau Harbwr
- Carthu cynnal a chadw at ddibenion mordwyo
- Dyddodion wrth garthu am agregau neu fwynau

### Argyfwng, diogelwch a hyfforddiant

- Gwaith brys mewn ymateb i lifogydd neu berygl o lifogydd
- Ceblau a phiblinellau – archwilio ac atgyweirio brys awdurdodedig
- Dyddodion damweiniol
- Cael gwared ar rwystr neu berygl i fordwyo
- Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant
- Fflerau ac eitemau eraill o'r fath at ddibenion diogelwch a hyfforddiant
- Cyfarwyddydau diogelwch o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995
- Diffodd tân
- Ymchwiliad i ddamweiniau awyr

### Pysgota a physgod cregyn

- Gweithrediadau pysgota
- Lledaenu a magu pysgod cregyn

### Ymchwiliad o'r ddaear

- Samplu cydio o wely'r môr
- Samplu Vibrocore
- Tyllau Prawf
- Tyllau Turio

### Adfer cynefinoedd

- Adfer morwellt

### Sbwriel

- Adfer sbwriel morol
- Defnyddio cerbydau neu longau gan awdurdodau harbwr, CNC ac elusennau amgylcheddol i gael gwared ar sbwriel môr, malurion ac anifeiliaid marw

### Gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio

- Gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio gwaith diogelu'r arfordir, draenio ac amddiffyn rhag llifogydd
- Cynnal a chadw pontydd a strwythurau cantilifrog presennol, gan gynnwys pierau a glanfeydd

### Marcwyr, angorfeydd a phontynau

- Angorfeydd a chymhorthion mordwyo
- Marcwyr dros dro (uchafswm terfyn 28 diwrnod)
- Pontynau
- Marcwyr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd a pharthau cadwraeth morol
- Llwybrau deifwyr o fewn ardaloedd cyfyngedig

### Ymateb i lygredd

- Dyddodi offer i reoli, dal neu adennill olew
- Dyddodi sylweddau trin cemegau ac olew morol ac ati
- Gweithgareddau sy'n dod o fewn Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995

### Ymchwil wyddonol

- Cyfarpar ac offerynnau gwyddonol
- Deunyddiau olrhain ac adweithredyddion

### Llongau

- Lansio llongau
- Dyddodion yn ystod mordwyo arferol
- Datgymalu llongau
- Gweithgareddau achub
- Hawliau llongau tramor o dan gyfraith ryngwladol
- Llwytho llongau i'w llosgi y tu allan i Gymru, rhanbarth glannau Cymru neu ranbarth môr mawr Cymru
- Glanhau corff llong yn y dŵr
- Symud llongau sydd wedi eu gadael neu longau adfeiliedig

### Eraill

- Twnnel turiedig
- Symud tywod a chwythwyd gan y gwynt a'i ddyddodi
- Gollwng cemegion ac olew alltraeth
- Cyfleusterau doc sych
- Arddangosfeydd tân gwyllt
- Samplau i'w profi a'u dadansoddi

## Amodau Cyffredin ar gyfer Esemptiadau

Mae'r rhan fwyaf o esemptiadau yn cynnwys amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir gweithredu'r esemptiadau. Os na ellir bodloni amodau'r esemptiad, rhaid gwneud cais am Drwydded Forol ac mae'n ofynnol. **Gall unrhyw achos o dorri telerau ac amodau'r esemptiad arwain at gamau gorfodi**.

Mae'r amodau'n amrywio o un esemptiad i'r llall. Rhaid i chi gyfeirio at Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2026, am yr amodau sy'n berthnasol i bob esemptiad. Yr amodau mwyaf cyffredin yw:

**Asesu risg i fordwyaeth** – er mwyn penderfynu a yw eich gweithgaredd arfaethedig yn achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo, rhaid i chi drafod â'r canlynol, gan gadw cofnod o'ch trafodaeth gyda'r awdurdodau hyn at ddibenion cydymffurfio a gorfodi. Rhaid i chi hefyd gadarnhau i'r canlynol bod eu cyngor wedi'i ddilyn.

- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau – navigationsafety@mcga.gov.uk
- Trinity House – navigation@trinityhouse.co.uk
- Awdurdod Harbwr Perthnasol (os yw'n berthnasol).

**Asesu risg i'r amgylchedd** – er mwyn penderfynu a yw eich gweithgaredd arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar ardal warchodedig forol, cynefin gwely'r môr sensitif neu reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, rhaid i chi drafod â'r canlynol, gan gadw cofnod o'r drafodaeth at ddibenion cydymffurfio a gorfodi. Dylech hefyd ddilyn unrhyw ganllawiau perthnasol, fel y bo'n briodol, a luniwyd gan y corff cadwraeth natur statudol perthnasol.

- Cyfoeth Naturiol Cymru – corff cadwraeth natur statudol ar gyfer rhanbarth glannau Cymru: marine.advice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur – corff cadwraeth natur statudol ar gyfer rhanbarth môr mawr Cymru.

**Asesu risg i longddrylliad gwarchodedig/ased hanesyddol** – i benderfynu a yw eich gweithgaredd arfaethedig yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol neu unrhyw longddrylliad gwarchodedig, rhaid i chi drafod â'r canlynol, gan gadw cofnod o drafodaethau at ddibenion cydymffurfio a gorfodi:

- Cadw – HenebionCofrestredig@llyw.cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: nmr.wales@rcahmw.gov.uk

**Asesu'r effaith ar Ardaloedd Perygl ac Ardaloedd Ymarfer dynodedig y Weinyddiaeth Amddiffyn** – rhaid i chi ofyn am gyngor a/neu gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) os ydych chi'n bwriadu cynnal gweithgaredd esempt mewn Ardaloedd Perygl ac Ardaloedd Ymarfer dynodedig neu gerllaw iddynt: DIO-Safeguarding-Offshore@mod.gov.uk

Gellir gweld Ardaloedd Perygl ac Ardaloedd Ymarfer Dynodedig ar y Porth Cynllunio Morol: Y porth cynllunio morol | LLYW.CYMRU.

### Gwybodaeth i lywio trafodaethau

Er mwyn llywio eich trafodaethau gyda'r awdurdodau y cyfeirir atynt uchod, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i chi ddarparu manylion eich gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys lleoliad (gyda chyfesurynnau lledred a hydred), amseriadau'r gweithgaredd arfaethedig a'r fethodoleg ar gyfer cynnal y gweithgaredd arfaethedig. Dylai hefyd fanylu ar unrhyw ymgynghoriad lleol a gynhaliwyd i baratoi ar gyfer dewis safle.

Dylai'r wybodaeth a roddwch i lywio eich trafodaethau gyda'r awdurdodau mordwyo hefyd gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lefel bresennol gweithgarwch llongau (masnachol a hamdden) yn lleoliad eich gweithgaredd arfaethedig. Dylech hefyd ystyried effaith bosibl eich gweithgaredd arfaethedig ar ddefnyddwyr morol eraill, gan gynnwys ystyried a oes angen rhoi Hysbysiad i Forwyr i hysbysu defnyddwyr môr eraill o'ch gweithgareddau arfaethedig.

Y Porth Cynllunio Morol: Gellid defnyddio Porth cynllunio morol | LLYW.CYMRU i lywio eich dealltwriaeth o'r effeithiau tebygol y gallai eich gweithgaredd arfaethedig ei gael ar ddefnyddwyr eraill y môr a'r amgylchedd morol.

**Hysbysiad ymlaen llaw** – Pan fo person yn bwriadu cynnal gweithgaredd esempt ar ôl trafodaeth a chyngor gan yr awdurdodau uchod, rhaid rhoi hysbysiad ymlaen llaw o'r bwriad i gynnal gweithgaredd esempt i'r canlynol:

- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, o leiaf 15 diwrnod cyn i unrhyw weithgaredd ddigwydd.
- Trinity House, o leiaf 15 diwrnod cyn i unrhyw weithgaredd ddigwydd.
- Swyddfa Hydrograffig y DU, o leiaf 5 diwrnod cyn i unrhyw weithgaredd ddigwydd.
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn, o leiaf 15 diwrnod cyn i unrhyw weithgaredd ddigwydd.

Yn ogystal â'r awdurdodau uchod, er nad yw'n amod o'r esemptiadau, dylai unrhyw berson sy'n dymuno dibynnu ar esemptiad roi hysbysiad ymlaen llaw i'r canlynol, o leiaf 15 diwrnod cyn i unrhyw weithgaredd ddechrau:

- Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru: marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk
- Tîm Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru: marinelicencingenforcement@gov.wales

Rhaid i bob hysbysiad ymlaen llaw i'r awdurdodau uchod fanylu ar ddyddiad y gwaith arfaethedig a'r esemptiad y dibynnir arno. Rhaid i berchennog y gweithgaredd sy'n cael ei gynnal hefyd sicrhau bod yr holl gontractwyr ac is-gontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan yn ymwybodol o ba esemptiad y dibynnir arno ac union delerau ac amodau'r esemptiad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion yr esemptiad.

## Caniatadau eraill

Nid yw esemptiadau trwyddedau morol, pan fônt yn berthnasol, yn dileu'r gofyniad i chi sicrhau pob cydsyniad neu ganiatâd arall sydd ei angen arnoch ar gyfer eich gweithgaredd arfaethedig. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd angen caniatâd arnoch gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol os yw eich gweithgaredd arfaethedig wedi'i leoli uwchben y Marc Distyll Cymedrig a gallai gael effeithiau ar y tir. Fe'ch anogir i siarad â'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol cyn i chi ddechrau unrhyw waith.

Bydd angen cytundeb perchennog tir arnoch hefyd gan Ystad y Goron os yw'r gweithgaredd yn rhyngweithio â'r blaendraeth (y tir rhwng y marc penllanw cymedrig a'r marc distyll cymedrig) neu wely'r môr y maent yn ei reoli.

Mae map o berchnogaeth Ystad y Goron o ran y blaendraeth ac aberoedd ar gael ar ei Phorth Data Agored.

Ar gyfer gweithgareddau arolygu esempt sy'n rhyngweithio'n ffisegol â gwely'r môr neu'r blaendraeth o dan berchnogaeth Ystad y Goron, bydd angen Trwydded Arolygu Gwely'r Môr (SSL) neu Drwydded Arolygu Arfordirol (CSL) gan Ystad y Goron. Ar gyfer ymholiadau ynghylch Trwyddedau Arolygu Gwely'r Môr, anfonwch e-bost at consents@thecrownestate.co.uk neu CoastalTeam@thecrownestate.co.uk ynghylch Trwyddedau Arolygu Arfordirol. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at y tudalennau gwe priodol ar wefan Ystad y Goron: Trwyddedu a chanllawiau | Ystad y Goron.

Argymhellir siarad ag awdurdodau eraill sy'n gyfrifol am roi cydsyniad neu ganiatâd cyn gynted â phosibl a chyn i chi ymgymryd ag unrhyw waith.

Nid yw esemptiadau trwyddedau morol hefyd yn rhyddhau unrhyw awdurdod cyhoeddus arall rhag cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol eu hunain o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

## Canllawiau Arferion Da

Cynghorir bod yr arferion da canlynol yn cael eu hystyried a'u defnyddio cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd esempt:

- Mesurau atal llygredd – cyfeiriwch at wefan CNC am ganllawiau ar fesurau atal llygredd addas neu angenrheidiol.
- Asesiad Bioddiogelwch Rhywogaethau Estron Goresgynnol – cyfeiriwch at wefan CNC am ragor o fanylion.
- Protocol ar gyfer Darganfyddiadau Archaeolegol (PAD) yng Nghymru, dan oruchwyliaeth Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

## Adolygiad o Weithgareddau Esempt

Mae'n arfer da adolygu esemptiadau o bryd i'w gilydd i sicrhau ei bod yn dal yn briodol parhau i esemptio gweithgareddau o'r broses drwyddedu morol, gan roi sylw i ofynion Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf i ddiogelu'r amgylchedd, iechyd pobl a defnyddwyr eraill y môr. Rydym yn bwriadu adolygu gweithgareddau esempt bob 5 mlynedd, oni bai bod angen penodol yn cael ei nodi i adolygu esemptiadau yn gynt.

# Esboniad o dermau penodol a ddefnyddir yn y canllawiau a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011 (fel y'i diwygiwyd)

| | |
|---|---|
| **Gwaith carthu dyfnhaol** | Gwaith carthu dyfnhaol yw carthu mewn ardal nad yw wedi'i charthu o'r blaen, ac i ddyfnder nad yw wedi'i garthu o'r blaen, neu i ddyfnder nad yw wedi'i garthu o fewn y deng mlynedd diwethaf. |
| **Seilnod siart** | Ar Ynysoedd Prydain, mae Seilnod Siart tua lefel y Distyll Astronomaidd (LAT). |
| **Malurion** | Mae hyn yn cynnwys gweddillion o rywbeth sydd wedi'i ddinistrio neu ddarnau o ddeunydd diangen neu wedi'i daflu a allai gael ei wasgaru o gwmpas. |
| **Ardaloedd Perygl ac Ardaloedd Ymarfer Dynodedig** | Ardaloedd Perygl ac Ardaloedd Ymarfer Dynodedig y Weinyddiaeth Amddiffyn, a ddynodwyd at ddibenion profion milwrol, ymarferion hyfforddi neu osod trefn milwyr. |
| **Gwaith Brys** | Mae argyfwng sy'n berthnasol i drwyddedu morol yn sefyllfa a allai, os na chaiff ei hunioni neu ei gweithredu ar frys, achosi canlyniadau difrifol i iechyd pobl, diogelwch mordwyo, yr amgylchedd neu eiddo, gan gynnwys seilwaith sy'n eiddo i'r cyhoedd.<br><br>Nid yw esemptiadau sy'n galluogi gwaith i gael ei wneud i ddelio ag argyfwng yn berthnasol pan fu methiant i gynnal ased cyn argyfwng. |
| **Ardal Rhynglanwol** | Yr ardal rhwng lefel penllanw cymedrig y gorllanw a marc distyll cymedrig y gorllanw. |
| **Cynnal a chadw** | Gwaith cynnal a chadw, mân atgyweiriadau neu welliannau rhesymol ar gyfer strwythur neu ased presennol yn gyfan gwbl o fewn ei ffiniau presennol. Nid yw'n cynnwys newidiadau sylweddol. |
| **Sbwriel môr** | Unrhyw ddeunydd solet parhaus, wedi'i weithgynhyrchu neu wedi'i brosesu sy'n cael ei daflu, ei waredu neu ei adael yn yr amgylchedd morol ac arfordirol. Nid yw'r diffiniad o sbwriel môr at ddibenion esemptiadau trwyddedau morol yn ymestyn i arfau rhyfel wedi'u dympio. |
| **Ardal Forol Warchodedig** | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r safleoedd dynodedig canlynol yn yr ardal forol at ddibenion cadwraeth natur: Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Parth Cadwraeth Morol, Safle Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. |
| **Mân Waith Arferol** | Mae mân waith arferol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, adnewyddu a chynnal asedau ategol strwythurau, megis gosod goleuadau, arwyddion, gwaith ar lwybrau, ffensys ac arwynebau ffyrdd. |
| **Arolwg neu arbrawf gwyddonol** | Ymgyrch i gynnal arolwg o'r amgylchedd morol at ddibenion arsylwi a/neu ddadansoddi gwyddonol yw hwn. |